# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 6 Chwefror 2020

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.00) (Tudalennau 1 - 5)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2020

## 3 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 2

(09.00-10.00) (Tudalennau 6 - 40)

Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Cath Wyatt, Rheolwr Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau, Llywodraeth Cymru

Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Claire Germain, Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru

Briff ymchwil

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.00)

## 5 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(10.00-10.30)

## 6 Trafod Ail Gyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad 2019-20

(10.30-10.45) (Tudalennau 41 - 55)

Papur 1 - Llythyr gan y Comisiynydd a Memorandwm Esboniadol Cyllideb Atodol 2019-20

## 7 Trafod Ail Gyllideb Atodol Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20

(10.45-11.00) (Tudalennau 56 - 65)

Papur 2 - Swyddfa Archwilio Cymru Memorandwm Esboniadol Cyllideb Atodol 2019-20

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Ionawr 2020

Amser: 09. - 10.31

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5980

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Alun Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Mark Reckless AC<br>David Melding AC (yn lle Nick Ramsay AC) |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Samantha Williams (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod. Roedd David Melding AC yn bresennol fel dirprwy i Nick Ramsay AC.

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Trafod yr adroddiad drafft

2.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft a’r llythyrau perthnasol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, a chytunwyd ar yr adroddiad yn amodol ar newidiadau.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Ionawr 2020

Amser: 09.02 - 10.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5986

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Alun Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Mark Reckless AC<br>David Melding AC (yn lle Nick Ramsay AC)<br>Siân Gwenllian AC (yn lle Rhun ap Iorwerth AC) |
| Tystion: | Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Daniel Hurford, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Samantha Williams (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r tystion i'r cyfarfod, gan gynnwys Siân Gwenllian AC fel Aelod newydd o'r Pwyllgor Cyllid.

1.2 Diolchodd y Cadeirydd i Rhun ap Iorwerth am ei gyfraniad at y Pwyllgor.

1.3 Roedd David Melding AC yn bresennol ar ran Nick Ramsay AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y cofnodion a'r papur.

### 2.1 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch goblygiadau ariannol y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) – 14 Ionawr 2020

## 3 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; y Cynghorydd Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid ac Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Daniel Hurford, Pennaeth Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, o ran y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r tystion

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chytuno ar ei restr o dystion ar gyfer sesiynau tystiolaeth lafar.

## 7 Taliadau cadw yn y sector adeiladu: y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad

7.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr ymchwiliad a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog gyda'i ganfyddiadau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

**National Assembly for Wales**
Assembly Commission

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Ionawr 2020

Annwyl Llyr

Rwy'n ysgrifennu i ddwyn sylw'r Pwyllgor at newid arfaethedig y Comisiwn i'w gyllideb gymeradwy ar gyfer 2019-20 drwy broses y Gyllideb Atodol. Mae'r Comisiwn yn cynnig gwneud y canlynol:

- cynyddu cyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £0.15 miliwn
- lleihau'r gyllideb o ran Penderfyniad y Bwrdd Taliadau o £0.500 miliwn.

## Cyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol, ac mae'n addasiad cyfrifyddu, yn hytrach na gofyniad arian parod.

Ni ellir cyfrifo gwir werth y Gwariant a Reolir yn Flynyddol tan ar ôl 31 Mawrth 2020. Felly, mae'r Comisiwn yn ceisio cael amcangyfrif proffesiynol o'r gwerth ar ddiwedd y flwyddyn yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r wybodaeth actiwaraidd a gafwyd yn nodi y gallai'r rhwymedigaeth fod yn £1.6 miliwn, sy'n uwch na ffigur y gyllideb, sef £1.5 miliwn. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cynyddu cyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £0.150 miliwn. Ni fydd hyn yn effeithio ar y gofyniad o ran arian parod gan mai addasiad cyfrifyddu heblaw arian parod yw hwn.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

Cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

Pennwyd cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2019-20 fel £16.197 miliwn. Rhagolwg mis Rhagfyr 2019 ar gyfer y llinell gyllideb hon yw £14.954 miliwn, sef tanwariant o £1.243 miliwn.

Mae cyfarfodydd cyllidebol â Gwasanaethau Busnes yr Aelodau wedi nodi ei bod yn dra thebygol na fydd £500,000 o'r gyllideb hon sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio.

Ni fyddai'n gam doeth i ostwng y llinell gyllideb hon o £1.243 oherwydd y newidiadau a gyflwynir gan y Bwrdd Taliadau yn ystod 2019-20 a'r tebygolrwydd y bydd eitemau annisgwyl yn effeithio ar y gyllideb hon, e.e. taliadau marwolaeth mewn gwasanaeth a hawliadau hwyr.

Rydym yn ymwybodol o'n hymrwymiad o ran unrhyw danwariant yn erbyn cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn y flwyddyn hon ac yn y dyfodol. Yn unol â hynny, rydym yn mabwysiadu'r un egwyddor â 2018-19 ar gyfer y swm nas defnyddiwyd a nodwyd eleni; ni fyddwn yn defnyddio'r £500,000, a chyflwynir y gyllideb atodol hon i ddiwygio'r gyllideb a osodwyd yn wreiddiol.

Mae'r tanwariant hwn o £500,000 eisoes wedi'i gydnabod yng nghyllideb 2020-21, lle mae'r Comisiwn wedi cynyddu'r ddarpariaeth o ran swyddi gwag a gwmpesir gan y Penderfyniad (h.y. wedi lleihau'r gyllideb) o £500,000 yn ychwanegol.

Dangosir yr effaith ar gyllideb gyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2019-20 yn y tabl isod:

| | Cyllideb gymeradwy £m | Cyllideb atodol a gynigir £m | Cyllideb ddiwygiedig arfaethedig £m |
|---|---:|---:|---:|
| Cyllideb adnoddau | £40.291 | | £40.291 |
| Cyllideb yr Aelodau | £16.197 | -£0.500 | £15.697 |
| Cyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol | £1.500 | +£0.150 | £1.650 |
| Cyfanswm | £57.988 | -£0.350 | £57.638 |

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, bydd y Comisiwn yn gosod memorandwm esboniadol gyda'r cais hwn. Mae copi o'r ddogfen hon wedi'i hatodi, er hwylustod. Rhowch wybod i mi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir

Suzy Davies

cc Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Cyllideb Atodol 2019-20:
# Memorandwm Esboniadol

Chwefror 2020





www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Cyllideb Atodol 2019-20:
Memorandwm Esboniadol

Chwefror 2020



www.cynulliad.cymru


Croeso
i'r Senedd
—
Welcome
to the
Senedd

# Contents

**1. Cyflwyniad ........ 7**
**2. Y cefndir ........ 8**
**3. Cwmpas y gyllideb ........ 10**



# 1. Cyflwyniad

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Defnyddir cyllideb Comisiwn y Cynulliad i dalu am gostau rhedeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chostau Cyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad fel y pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Mae Comisiwn y Cynulliad ("y Comisiwn") yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") i hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Ei swyddogaeth yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Mae gan Aelodau'r Cynulliad gryn gyfrifoldeb a braint yn eu rôl o gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, o ddeddfu ar gyfer Cymru, o gytuno ar drethi yng Nghymru ac o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.  Rôl Comisiwn y Cynulliad yw darparu staff a gwasanaethau cymorth arbenigol o safon uchel i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad wedi'u paratoi'n iawn i wneud eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli, ac i fodloni disgwyliadau pobl Cymru.

Nodau strategol y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad yw:

- darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf;
- ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad
- defnyddio adnoddau'n ddoeth.

# 2. Y cefndir

Cafodd Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2019-20 ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Tachwedd 2018, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Roedd y cynnig cyllideb yn darparu £57.023 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn gan ddarparu:

- £39.326 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad; a
- £16.197 miliwn ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Darparwyd £1.500 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32 gosodwyd Memorandwm Esboniadol, gan gefnogi amrywiad i gyllideb 2019-20 y Comisiwn o fewn y Cynnig Cyllideb Atodol (Rheol Sefydlog 20.30). Cymeradwywyd y Cynnig Cyllideb Atodol yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Gorffennaf 2019 yn dilyn gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Gosodir yr ail Femorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, i gefnogi newidiadau pellach sydd i'w cynnig i gyllideb gymeradwy'r Comisiwn ar gyfer 2019-20, drwy Gynnig Cyllideb Atodol.

## 2.1. Memorandwm Esboniadol

Yr effaith a gaiff cyllideb atodol y Comisiwn fydd cynyddu'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn unol â'r amcanestyniadau, a lleihau cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn unol â'r amcanestyniadau.

## 2.2. Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol. Diben yr addasiad hwn yw sicrhau y caiff darlun gwir a theg o rwymedigaeth y Cynllun ei gofnodi ym mantolen y Comisiwn; nid yw'n adlewyrchu'r symiau ariannol y mae'r Comisiwn yn eu talu i'r Cynllun. Nid oes unrhyw ofyniad cysylltiedig o ran arian parod ac nid yw gwneud newidiadau iddo'n effeithio o gwbl ar gyllideb adnoddau na gwaith darparu gwasanaethau'r Comisiwn.

Ni ellir cyfrifyddu'r gwerth terfynol tan ar ôl 31 Mawrth 2020, ond gofynnir am amcangyfrifon gan gynghorwyr proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Yn seiliedig ar gyfrifiadau sy'n adlewyrchu newidiadau hysbys i'r gyfradd ddisgownt a

newidynnau eraill sy'n effeithio ar yr amcangyfrif o rwymedigaethau'r cynllun, yr amcangyfrif diweddaraf yw £1.600 miliwn.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol y Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £1.650 miliwn er mwyn sicrhau bod digon o arian wrth gefn i ymdopi ag unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau terfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

## 2.3. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

Y Bwrdd Taliadau yw'r corff annibynnol sy'n pennu cyflogau a thaliadau'r Aelodau a'u staff, a'r system o gymorth ariannol sydd ei hangen i'r Aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae'r Penderfyniad yn rhoi arian ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a/neu ddeiliad swydd, er enghraifft:

- cynnal swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a chostau teithio eu staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i'r Aelodau y mae eu cartref yn bellter sylweddol i ffwrdd (mae meini prawf cymhwysedd yn gymwys); a
- chymorth i Grwpiau'r Pleidiau ac ymchwil polisi.

Ni ellir cyfrifyddu'r costau terfynol yn gywir tan ar ôl 31 Mawrth 2020, felly gwneir rhagolygon yn ystod y flwyddyn. Yn seiliedig ar y disgwyliadau presennol, yn bennaf oherwydd swyddi gwag staff, nid yw'n debygol y dymunir defnyddio'r holl arian a gyllidebwyd ar gyfer cyflogau staff cymorth a lwfansau eraill.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol o £15.697 miliwn ar gyfer cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad er mwyn sicrhau bod digon o arian wrth gefn i ymdopi ag unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau terfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

## 2.4. Effaith y gyllideb

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn cynnig yr hyn a ganlyn:

- cynnydd yn y Gyllideb ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol o £0.150 miliwn, i £1.650 miliwn.

- lleihad yn y gyllideb o ran Penderfyniad y Bwrdd Taliadau o £0.500 miliwn, i £15.697 miliwn.

# 3. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllideb atodol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.32 y Cynulliad Cenedlaethol i helpu i lunio'r Cynnig Cyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau a gofynion y gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020.

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn awdurdodi defnyddio'r adnoddau net ar gyfer gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Cynulliad. Mae'r Cynnig yn cynnwys yr incwm uchaf (neu'r adnoddau cronni) y gellir eu cadw i'w defnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion hynny yn lle cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd hefyd yn nodi swm yr arian parod y bydd angen ei ryddhau o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net disgwyliedig sy'n ddyledus i'w talu gan y Comisiwn.
Nodir cyllideb ddiwygiedig 2019-20 Comisiwn y Cynulliad, sy'n rhoi sylw i'r gofynion diwygiedig hyn, yn Nhabl 1 isod.

***Tabl 1: Cyllideb Atodol 2019-20 ar gyfer y Comisiwn yn ôl y gofynion***

| Gofynion Comisiwn y Cynulliad | 2019-20 £'000 |
|---|---|
| Adnoddau heblaw am adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br>Adnoddau heblaw am adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. | £57,638 |
| Adnoddau cronnus ar gyfer eu cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn, o waredu asedau sefydlog, ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Cynulliad | £220 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn o ran y gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei hadennill. | £54,088<br>Tabl 2 |

***Tabl 2: Cysoni'r gofyniad adnoddau newydd â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru***

| Gofyniad Arian Parod Net | 2019-20 £'000 |
|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | £15,697 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | £39,791 |
| Gofyniad cyfalaf net | £500 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | £1,650 |
| **Is-gyfanswm** | **£57,638** |
| **Addasiadau** | |
| Dibrisiant | (£2,250) |
| Newidiadau mewn darpariaethau | (£1,650) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a chredydwyr | £350 |
| **Is-gyfanswm** | **(£3,550)** |
| **Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru** | **£54,088** |

Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-05-20 P2

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch yr Amrywiad i Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: y tîm Cyhoeddi sy'n neilltuo hwn

# Memorandwm esboniadol

Cyflwynwyd i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ystyried dan Reol Sefydlog 20.35.





Adrian Crompton
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Isobel Everett
Cadeirydd, ar ran **Swyddfa Archwilio Cymru**

# Cynnwys

Diben y memorandwm esboniadol hwn

Cyflwyniad **4**

Y rheswm dros y newid 4

Amcangyfrif Diwygiedig o ofynion cyllideb 2019-20 i'w gynnwys yng Nghynnig Cyllideb Atodol Gweinidogion Cymru dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 6

Esboniad ar y newidiadau yn y cyllidebau adnoddau 7

Crynodeb 7

Atodiadau

Atodiad 1 - Incwm a Threuliau Archwilio Cymru 2019-20 (diwygiedig) 8

# Diben y memorandwm esboniadol hwn

## Cyflwyniad

1 Am bob blwyddyn ariannol, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'i hincwm a'i gwariant i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Rhaid i'r Pwyllgor archwilio'r amcangyfrif hwnnw a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl gwneud unrhyw newidiadau y mae'n eu hystyried yn briodol.

2 Roedd yr Amcangyfrif ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru am 2019-20 wedi ei gynnwys yng Nghynnig Cyllideb Blynyddol Llywodraeth Cymru dan Reol Sefydlog 20.26 a chafodd ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Ionawr 2019 yn dilyn craffu gan y Pwyllgor Cyllid.

3 Cafodd Amcangyfrif Atodol am gostau ychwanegol, cysylltiedig â chynyddiadau yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwyr oherwydd gwerthusiad o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid ar y 15fed o Fai 2019 a'i gynnwys yng Nghynnig Cyllideb Atodol Cyntaf Llywodraeth Cymru a roddwyd gerbron ym mis Mehefin 2019.

4 Mae Amcangyfrif awdurdodedig Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys:

- £14.475 miliwn o adnoddau cronedig, a gynhyrchwyd drwy ffioedd a godwyd ar gyrff a archwiliwyd.
- £7.878 miliwn o adnoddau eraill i gefnogi ein cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn.
- £9.586 miliwn o gyllid arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru.

5 A chymryd adnoddau cronedig ac adnoddau eraill gyda'i gilydd (dim arian parod), defnyddir y £22.353 miliwn hyn i gyllido costau Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddi gyflawni ei dyletswyddau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

6 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn awr yn dymuno newid yr Amcangyfrif a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020.

### Y rheswm dros y newid

7 Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfarwydd iawn â chymhlethdod ein trefn ffioedd a'r anawsterau cysylltiedig o ran amcangyfrif yn fanwl gywir faint yr incwm a gynhyrchir yn unrhyw un flwyddyn ariannol.

8 Er y cytunir ar y ffioedd gyda phob corff unigol a archwilir am y flwyddyn, mae'r gwaith archwilio ei hun yn syrthio ar draws blynyddoedd ariannol. Gall yr union amser y caiff y gwaith archwilio ei gyflawni arwain at amrywiadau sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, o ran pa flwyddyn ariannol y cofnodir yr incwm ynddi yn ein cyfrifon. Fel enghraifft, gellid cyflawni gwaith, ar gyfer dyddiad cau ym mis Mai, ym mis Mawrth neu ym mis Ebrill heb effeithio ar gyflawni'r archwiliad ond caiff yr incwm o ganlyniad ei gydnabod mewn blwyddyn ariannol wahanol, yn dibynnu ar bryd y caiff y gwaith ei wneud.

9 Yn y misoedd diwethaf, yn unol â’n hymdrech i gyflawni’n prosiectau archwilio’n gynharach ynghyd â gwaith cydweithredol ar draws ein timau archwilio, mae’r swm o waith sy’n ennill ffioedd a gaiff ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol hon wedi cynyddu y tu hwnt i’r lefelau a ddisgwylid yn ein Hamcangyfrif a gymeradwywyd. Rydym ar hyn o bryd yn amcangyfrif y bydd yna £300,000 ychwanegol o adnoddau cronedig o ganlyniad.

10 I fod yn glir, nid ydym yn codi dim mwy ar y cyrff a archwilir nag yr oeddem wedi bwriadu[1], yr unig beth yw ein bod yn disgwyl y cyfrifir am fwy o incwm yn awr o fewn y flwyddyn ariannol hon nag yr oeddem wedi amcangyfrif yn wreiddiol.

11 Rydym wedi gweithio’n galed i gynhyrchu’r incwm ychwanegol hwn yn y flwyddyn ariannol hon a’n bwriad yw defnyddio’r adnoddau ychwanegol i fuddsoddi mewn cynllunio’r gweithlu drwy ein cynllun ymadael gwirfoddol. Bydd hyn yn cefnogi ein cynllun ariannol tymor canolig drwy ddarparu arbedion parhaus a’n galluogi i ail siapio ein gweithlu gyda’r sgiliau a chymwyseddau amrywiol rydym eu hangen i gyflawni ein blaenoriaethau sefydliadol.

12 Byddwn yn adolygu effaith y cyflawniad cynharach hwn wrth ailasesu ein sylfaen incwm (adnoddau cronedig) ar gyfer 2020-21.

[1] Oni chytunir yn lleol ac yn codi o waith archwilio ychwanegol penodol fydd ei angen.

# Amcangyfrif Diwygiedig 2019-20 i'w gynnwys yng Nghynnig Cyllideb Atodol Gweinidogion Cymru dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

Dan Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), gall Gweinidogion gyflwyno Cynnig Cyllideb Atodol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi'r defnydd o adnoddau, cadw incwm a thynnu arian allan o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer rhai personau perthnasol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020, bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi:

- swm yr adnoddau i gael eu defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru
- swm yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru y gellir eu dal yn ôl (yn hytrach na'u talu i mewn i'r Gronfa Gyfunol); a
- y swm y gellir ei dalu allan o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r gofynion hyn, na allant fod yn ddim ond amcangyfrifon oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, wedi eu crynhoi yn Arddangosyn 1 isod.

Arddangosyn 1: Crynodeb o ofynion cyllideb amcangyfrifedig 2019-20

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau, ar wahân i adnoddau cronedig, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr a benodir gan lywodraeth leol, ac ar weinyddiaeth Swyddfa Archwilio Cymru: | |
| • Refeniw | 7,668 |
| • Cyfalaf | 210 |
| Adnoddau cronedig o ffioedd a chostau a godir am waith archwilio a gwasanaethau cysylltiedig; costau eraill a adenillir cysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau a darparu gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a thechnegol; i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar wasanaethau cysylltiedig ynghyd â rhedeg Swyddfa Archwilio Cymru. | 14,775 |
| Yr arian net sydd ei angen o'r Gronfa Gyfunol i gwrdd â'r symiau net sydd i gael eu talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 9,586 |

## Esboniad o’r newidiadau yn y cyllidebau adnoddau

13 Gan fod a wnelo’r newid hwn ag amseriad cynhyrchu incwm ac nid ag amseriad y ffioedd yr anfonwyd biliau amdanynt i gyrff a archwiliwyd, ni fydd yna newid yn y swm net o arian y bydd arnom ei angen. Rhoddir manylion ychwanegol yn Atodiad 1.

14 Dangosir y newidiadau sydd eu hangen yn y gyllideb yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Newidiadau yng nghyllideb 2019-20

| | Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2019-20 £’000 | Ail Amcangyfrif Atodol 2019-20 £’000 | Amcangyfrif Diwygiedig 2019-20 £’000 |
|---|---|---|---|
| Adnodd refeniw | 7,668 | - | 7,668 |
| Adnodd cyfalaf | 210 | - | 210 |
| Adnoddau cronedig | 14,475 | 300 | 14,775 |
| Cyfanswm gwariant | 22,353 | 300 | 22,653 |

## Crynodeb

15 Rhydd Arddangosyn 3 grynodeb o’r adnoddau cyfalaf a refeniw diwygiedig a’r swm net o arian sydd ei angen, sy’n aros heb newid, os cymeradwyir yr amcangyfrif atodol hwn.

Arddangosyn 3: Crynodeb o’r adnoddau ‘eraill’ diwygiedig a’r symiau arian gofynnol 2019-20

| | Cais adnoddau ‘eraill’ £’000 | Arian net sydd ei angen £’000 |
|---|---|---|
| Adnodd refeniw | 7,668 | 9,376 |
| Adnodd cyfalaf | 210 | 210 |
| Cyfanswm - gofyn am gymeradwyaeth | 7,878 | 9,586 |
| Y terfyn cymeradwy cyfredol | 7,878 | 9,586 |

## Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20 (diwygiedig)

| | | Amcangyfrif, blwyddyn i 31 Mawrth 2020 (Ail atodol) £'000 | Amcangyfrif, blwyddyn i 31 Mawrth 2020 (Atodol Cyntaf) £'000 | Newid o'r amcangyfrif a gymeradwywyd 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Treuliau | Costau staff | 16,217 | 15,917 | 300 |
| | Staff ar gontractau tymor byr | 737 | 737 | - |
| | Teithio a chynhaliaeth | 1,216 | 1,216 | - |
| | Llety | 993 | 993 | - |
| | Cwmnïau sector preifat (yn cynnwys TAW) | 905 | 905 | - |
| | Balans TAW na ellir ei adennill | 500 | 500 | - |
| | TGC | 480 | 480 | - |
| | Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 | 300 | - |
| | Hyfforddiant allanol | 289 | 289 | - |
| | Cyfieithu dogfennau | 165 | 165 | - |
| | Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 162 | 162 | - |
| | Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 479 | 479 | - |
| | **CYFANSWM TREULIAU** | **22,443** | **22,143** | **300** |
| Incwm | Ffioedd archwilio | 13,577 | 13,277 | 300 |
| | Ffioedd ardystio grantiau | 1,198 | 1,198 | - |
| | **CYFANSWM INCWM** | **14,775** | **14,475** | **300** |
| | **Cyfanswm y gyllideb refeniw i'w ariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru** | **7,668** | **7,668** | **-** |

DRAFT

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd  CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn destun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru